CYP(3)-09-10 :Papur 2

Tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog dros Blant ar gyfer Ymchwiliad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru i 'Fannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu'

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi pwyslais mawr ar gydweithio â phob rhanddeiliad, gan gynnwys plant a'u teuluoedd, i greu cymdeithas yng Nghymru sy'n gwerthfawrogi plant ac yn darparu cyfleoedd eang i blant a phobl ifanc chwarae a chymdeithasu. Mae plant a phobl ifanc yn aelodau pwysig o'n cymdeithas a dyluniwyd llawer o'n polisïau i gydnabod a chyflawni eu hawliau, gan gynnwys yr hawl i gael eu parchu a'r hawl i gael chwarae a chymdeithasu. Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig gyntaf a gyflwynwyd ar gyfer yr Ymchwiliad hwn yn ymdrin â llawer o'r deddfau a'r polisïau sydd wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mannau diogel i chwarae a chymdeithasu. Mae'r papur hwn yn cyflwyno mwy o wybodaeth ac yn ymdrin â'r materion a godwyd gan y cyrff eraill a ymatebodd i'r Ymchwiliad.

Dyma'r meysydd a gaiff sylw yn y papur hwn:

Y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)

Y Strategaeth Polisi Chwarae a Chynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae

Y Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid

Awdurdodau Lleol yn Darparu Cyfleoedd Chwarae

Y Polisi Cynllunio a Darpariaeth Chwarae

Dylunio a Materion Trafnidiaeth/Traffig

Traffig/Parthau Cartrefi

Iechyd a Diogelwch/Sbwriel

Perygl Dieithriaid

Cynaliadwyedd Darpariaeth Wirfoddol

Hyfforddiant Gwaith Chwarae

Cynnwys y Gymuned mewn Materion Cynllunio

Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc

Stereoteipiau Negyddol o Blant a Phobl Ifanc

Bwlio

Plant sy'n Byw mewn Ardaloedd Gwledig

Plant Anabl

Plant a Phobl Ifanc sy'n Byw mewn Cartrefi Difreintiedig

Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf

Plant Sipsiwn-Teithwyr

Y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru)

Bydd y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), a basiwyd yn ddiweddar, yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant yn ei ardal, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, a hynny ar sail asesiad. O dan y Mesur mae "chwarae" yn cynnwys unrhyw weithgaredd hamdden ac mae "digonol" yn golygu ystyried nifer ac ansawdd. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol roi sylw (ymysg pethau eraill) i anghenion plant anabl ac i anghenion plant o wahanol oedrannau.

Mae safonau yn cael eu datblygu i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni'r dyletswyddau newydd; bydd rheoliadau yn tanategu'r safonau hyn a chanllawiau yn eu hegluro. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnal trafodaethau ar hyn o bryd, â chyrff chwarae ac yn fewnol, ynghylch yr hyn a ystyrir yn 'ddigonol' o ran chwarae. Mae Chwarae Cymru wedi cynnal cynhadledd ar 'Gyfleoedd chwarae digonol i blant: beth sy'n ddigon da?' ac roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymhlith y cyfranwyr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu ymchwil i'r hyn y mae plant yn ei feddwl ac yn dymuno'i gael o chwarae, ac mae hyn yn cyfrannu at greu darlun o'r hyn y mae plant yn ei ystyried yn gyfleoedd chwarae digonol yn eu hardal.

Bydd y Mesur hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud y cyfryw drefniadau ag y mae'n eu hystyried yn addas i hybu a hwyluso plant i gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt.

Y Strategaeth Polisi Chwarae a Chynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae

Mae Polisi Chwarae a Chynllun Cyflawni Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dangos yn glir y pwyslais a roddir gan y llywodraeth ar blant a phobl ifanc a'u hawl i gael pob cyfle i wireddu eu potensial. Mae'r Polisi a'r Cynllun yn pwysleisio gwerth sylweddol chwarae a'r gred y dylai'r gymdeithas fanteisio ar bob cyfle i'w gefnogi.

Mae Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae wedi bod yn boblogaidd ac mae nifer o Awdurdodau Lleol wedi ei ddefnyddio yn sylfaen i ddatblygu eu strategaethau chwarae lleol eu hunain. Bydd camau gweithredu'r cynllun a'r camau sy'n cael eu cymryd yn ehangach i gyflawni'r agenda chwarae yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r safonau, y rheoliadau a'r canllawiau a ddaw yn sgîl y Mesur.

Y Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gyflawni'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid ac i sicrhau bod gwaith ieuenctid o ansawdd yn cael ei ddarparu ledled Cymru. I gyflawni hyn, mae Prif Swyddogion Ieuenctid, Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol a Swyddogion LlCC wedi paratoi Safonau Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid. I sicrhau dylanwad pobl ifanc ar y ddogfen hon comisiynodd y Gangen Strategaeth Gwaith Ieuenctid ymgynghoriad â phobl ifanc, i roi cyfle iddynt gofnodi eu disgwyliadau o'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y Safonau Cenedlaethol cyhoeddedig ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctidwedi'u strwythuro o amgylch y fframwaith pobl ifanc, gyda phroffesiynolion yn darparu'r manylion mewn un ddogfen gydlynus a chydategol.

Awdurdodau Lleol yn Darparu Cyfleoedd Chwarae

Mae'n ofynnol i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc ystyried anghenion chwarae a hamdden plant a phobl ifanc eu hardal y tu allan i'r ysgol, fel y nodir o dan Nod Craidd 4: Chwarae, Chwaraeon, Hamdden a Diwylliant yn nogfen y Cynulliad 'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau: Canllawiau Cynllunio a Rheoliadau i Awdurdodau Lleol a'u Partneriaid ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc'.

Mae'r canllawiau cyfredol ar gynllunio a phartneriaeth yn cael eu hadolygu er mwyn ystyried dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol a phartneriaid, gan gynnwys y dyletswyddau o dan y Mesur Plant a Theuluoedd o ran mynd i'r afael â thlodi plant a chwarae. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal a chanllawiau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Y Polisi Cynllunio a Darpariaeth Chwarae

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu a chynnal a chadw mannau agored a chyfleoedd chwarae. Sicrheir peth o'r tir drwy'r system gynllunio, drwy ddyraniadau cynlluniau datblygu, neu yn rhan o drafodaethau ynghylch ceisiadau cynllunio mawr. Mae rheolaethau cynllunio a rheolaethau eraill yn bodoli ar ddatblygu neu gael gwared ar dir hamdden.

Amlinellir y polisi cynllunio cenedlaethol yn "Polisi Cynllunio Cymru" (Mawrth 2002), a bydd argraffiad newydd yn cael ei gyhoeddi y mis hwn (Mehefin, 2010). Fe'i hategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol, sy'n rhoi cyngor cynllunio targededig a phenodol ar bynciau penodol, gan gynnwys, er enghraifft, tai, cadwraeth natur a chwaraeon, hamdden a mannau agored.

Mae "Polisi Cynllunio Cymru" yn annog awdurdodau cynllunio lleol i roi ystyriaeth i'r ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol y defnyddir tir at ddibenion hamdden. Mae'n nodi y dylid diogelu meysydd chwarae rhag cael eu datblygu ac eithrio lle y mae gormod o ddarpariaeth o'r fath, lle y gellir sicrhau darpariaeth arall, neu lle y gellir gwella'r cyfleusterau drwy ddatblygu rhan fach o'r safle. Er enghraifft, gellir isrannu maes chwarae mawr, a ddefnyddir o bosibl unwaith yr wythnos neu lai i gynnal cystadlaethau llawn, yn gyrtiau bach 5 bob ochr gyda chlwb. Bydd ansawdd y maes yn well, a bydd yn cael ei ddefnyddio'n amlach o lawer, yn enwedig am fod yna lifoleuadau i'w oleuo ar ôl iddi dywyllu yn ystod y tymor pêl-droed. Mae datblygiad tebyg eisoes wedi digwydd yn nwy o ysgolion Caerdydd – Ysgol Fitzalan ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd. Roedd y ddwy wedi cynnig tir hamdden a danddefnyddid ar gyfer ei ddatblygu a bellach mae'r ddwy, ynghyd â'u myfyrwyr y tu allan i oriau ysgol, yn gallu defnyddio'r cyfleusterau hyn yn ddi-dâl.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi paratoi deunyddiau eraill i gynghori ac arwain awdurdodau cynllunio lleol. Mae TAN 12 "Dylunio" (2009) yn pwysleisio'r angen i gynnwys mannau hamdden, a llwybrau cerdded a beicio, mewn cynigion datblygu o'r cychwyn, i greu ymdeimlad o le.

Mae TAN 16 "Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored" (2009) yn annog awdurdodau i gynnal Asesiad Mannau Agored, fel y gellir ymchwilio i'r angen am gyfleoedd hamdden a chael tystiolaeth ar gyfer polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar ddarparu mannau agored. Roedd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn ddiolchgar am gyngor "Chwarae Cymru" ac am gyfraniad gwerthfawr "Meysydd Chwarae" i'r gwaith o ddiweddaru TAN 16. Paratowyd TAN 16 gyda chyngor gan Grwp Cyngor Technegol; ymhlith yr aelodau roedd rhanddeiliaid allweddol o'r sector chwarae, gan gynnwys "Chwarae Cymru" a "Meysydd Chwarae".

Dylunio a Materion Trafnidiaeth/Traffig

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod nad yw'r hen ddull o ddylunio tai mewn trefi a dinasoedd o amgylch y car yn briodol. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn dilyn ei phenodiad oedd lansio'r Llawlyfr Strydoedd, yn lle'r hen Fwletin Dylunio 32.

Mae'r ffocws bellach ar ddylunio ardaloedd preswyl sy'n canolbwyntio ar bobl yn hytrach na'r car, fel y gwelir mewn datblygiadau megis Coed Darcy yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n rhoi hyfforddiant i awdurdodau cynllunio lleol a ffyrdd lleol ar ddefnyddio'r "Llawlyfr Strydoedd", ac ar faterion dylunio'n ymwneud â ffyrdd a rennir.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 12 "Dylunio" (2009) yn rhoi cyngor ar ddylunio ardaloedd preswyl ac amhreswyl newydd. Mae'n

pwysleisio'r angen am gyfleoedd hamdden lleol, a'u cyfraniad at egwyddorion dylunio da ac at hapusrwydd yn y gymuned.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 18 "Trafnidiaeth" (2007) yn rhoi cyngor ar greu cynlluniau strydoedd mewn ardaloedd trefol, a chyngor ar wneud y strydlun yn fwy cynhwysol i'r rhai sy'n cerdded, beicio a chwarae. Bydd datblygu rhwydweithiau o lwybrau cerdded a beicio a chyfleusterau ac atyniadau eraill yn cyfrannu at rwydwaith trafnidiaeth mwy cynaliadwy ac yn ehangu'r ystod o gyfleoedd hamdden, gan helpu i hybu teithio gweithredol a ffyrdd iachach o fyw.

Traffig/Parthau Cartrefi

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i leihau nifer y gwrthdrawiadau a'r anafiadau sy'n digwydd ar y ffyrdd, ac i ddatblygu amgylchedd mwy diogel i bawb. Sicrhau gwlad fwy diogel yw'r nod – i'n plant ac i holl bobl Cymru.

Mae gan awdurdodau lleol bwerau i gyflwyno terfynau 20mya lle y bo'n briodol – er enghraifft, mewn ardaloedd preswyl lle y bydd plant yn chwarae. Mae nifer y cynlluniau 20mya yng Nghymru wedi cynyddu'n raddol yn y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad drwy ein Grant Diogelwch Ffyrdd Lleol a'n rhaglenni Llwybrau Diogel.

Erbyn 31 Awst 2009 roedd 481 o gynlluniau yng Nghymru, ac roedd 66% ohonynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r Grant Diogelwch Ffyrdd a'r rhaglenni llwybrau diogel i'r ysgol/mewn cymunedau. Yn 2009 aethom ati i ddadansoddi nifer fawr o'r rhain gan ddefnyddio gwybodaeth fonitro a ddarparwyd gan awdurdodau lleol. Ar gyfartaledd roedd gostyngiad blynyddol o 38% yn nifer y gwrthdrawiadau a achosodd anafiadau a gostyngiad blynyddol o 42% yn nifer y rhai a laddwyd/anafwyd yn ddifrifol. At hynny, mewn rhai lleoliadau roedd gostyngiad o 4.8mya yng nghyflymdra'r traffig. Roedd yr adborth ysgrifenedig a gafwyd, gan breswylwyr a phrifathrawon "etc", ynghylch 200 o gynlluniau yn gadarnhaol ar y cyfan – roedd yr ychydig sylwadau negyddol yn tueddu i gyfeirio at waith cysylltiedig megis mesurau gostegu traffig ffisegol, yn hytrach nag at y terfyn 20mya ei hun.

Trafnidiaeth

Yn gyffredinol caiff plant dan 5 mlwydd oed deithio am ddim ar fysiau yng Nghymru a chaiff pobl ifanc 5-16 oed deithio'n rhatach drwy lu o gwmnïau masnachol ac awdurdodau lleol ledled Cymru.

Treialodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun teithio hanner pris i bobl ifanc 16-18 oed ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yng ngogledd-ddwyrain Cymru – mae eisoes wedi dod i ben. Croesawyd y cynllun gan yr holl gyfranogwyr. Fodd bynnag, mae'r gost o gyflwyno'r cynllun ledled Cymru yn rhy uchel yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

O ran teithio ar y rheilffyrdd, caiff hyd at 2 blentyn dan 5 mlwydd oed deithio am ddim yng nghwmni oedolyn ar wasanaethau rheilffyrdd, a chaiff plant hyd at eu pen-blwydd yn 16 oed deithio am hanner y pris. Mae cerdyn rheilffordd ar gael i bobl ifanc 16-25 oed sy'n eu galluogi i arbed traean o gost tocyn trên ledled Prydain. Mae Trenau Arriva Cymru hefyd yn rhedeg cynllun Cerdyn Rheilffordd i Fyfyrwyr ar gyfer llwybrau lleol y Cymoedd a Chaerdydd. Mae hyn yn sicrhau bod deiliad y cerdyn yn cael gostyngiad o 26% ar docynnau dydd a 10% ar docynnau tymor.

Iechyd a Diogelwch/Sbwriel

Mae angen amgylchedd gofalgar ac ysgogol ar blant, ac amgylchedd sy'n ddiogel ac yn heriol lle y gallant fod yn hapus a chael eu gwerthfawrogi fel unigolion. Gwyddom fod chwarae'n rhan bwysig o fywyd plant ac y gellir ei ddefnyddio i hybu eu datblygiad, eu dysg, eu creadigrwydd a'u hannibyniaeth.

Mae datganiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer Darpariaethau Chwarae Mynediad Agored yn cynnwys safon ar ddiogelwch, i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu mewn amgylchedd diogel. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu a chynnal a chadw mannau agored a chyfleoedd chwarae.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol, rhanddeiliaid, a phlant, pobl ifanc a'u rhieni wrth ddatblygu safonau a chanllawiau ar gyfer Chwarae yn rhan o'r broses o roi'r Mesur Plant a Theuluoedd ar waith.

Cynaliadwyedd Darpariaeth Wirfoddol

Mae cynllun Grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol (NVYO) Llywodraeth Cynulliad Cymru yn helpu Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol i gynyddu cwmpas a gwella ansawdd rhaglenni dysgu anffurfiol i bob person ifanc 11-25 oed.

Prif ddiben y cynllun yw helpu gyda chostau strategol rheoli'r rhaglenni. Cynigir canran fach o'r arian sydd ar gael drwy'r cynllun i helpu cyrff gyda chostau ariannu prosiectau.Gall cyrff wneud cais am gymorth grant i helpu gyda chostau rheolaeth a phrosiectau, ond rhoddir blaenoriaeth i helpu gyda chostau rheolaeth. £700,000 yw'r swm sydd ar gael i'r cynllun grant NVYO yn 2010-11.Ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, penderfynwyd y dylai £688,000 fod ar gael ar gyfer costau craidd ac y dylid defnyddio £12,000 o'r gronfa i ariannu prosiectau. Ar hyn o bryd mae'r cynllun yn rhoi cymorth grant i 14 o Gyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol.

Mae'r cyfrifoldeb am ddarparu Gwasanaethau Ieuenctid wedi'i ddatganoli i awdurdodau lleol, ac mae ganddynt hwy ddyletswydd i sefydlu trefniadau i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid a phartneriaeth leol strategol i sicrhau bod ystod gydlynus o wasanaethau ar gael i bob person ifanc.

Hyfforddiant Gwaith Chwarae

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod Cymru'n cynnig cyfleoedd hyfforddi gwaith chwarae sy'n hygyrch ac o ansawdd uchel i weithwyr chwarae ac i weithwyr eraill yng Nghymru y mae gwybodaeth o chwarae a'i arferion yn rhan o'u swydd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cyfanswm o £305,000 dros y 4 blynedd diwethaf i gynorthwyo'r Ganolfan Genedlaethol Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae ac wedi rhoi cymorth ariannol i helpu i ddatblygu rhai o'r cyrsiau hyfforddi gwaith chwarae.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu Adolygiad o gapasiti hyfforddiant chwarae yng Nghymru a'r ffordd y'i darperir. Rydym wrthi'n ystyried canlyniadau'r ymchwil hon a'i pherthynas â'n hagenda ar gyfer chwarae. Bydd hyfforddiant chwarae yn cael ei ystyried hefyd wrth ddatblygu'r safonau a ddaw yn sgîl y Mesur.

**Cynnwys y Gymuned mewn Materion Cynllunio**

Mae ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau yn rhan annatod o'r system gynllunio o'i dechrau i'w diwedd. Adlewyrchir hyn yn gyntaf yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, yna yn yr offerynnau statudol ac yna yn nogfennau polisi cynllunio'r Cynulliad a'r cyngor a'r cyfarwyddyd technegol cysylltiedig.

O dan y gyfraith cynllunio mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yr holl safbwyntiau a fynegir ar faterion cynllunio, gan gynnwys safbwyntiau plant a phobl ifanc.

Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol wneud penderfyniadau "er budd y cyhoedd ehangach"; weithiau rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gydbwyso galwadau neu safbwyntiau croes. Mae amrywiaeth o dechnegau ar gael y gall awdurdodau cynllunio lleol eu defnyddio i ymgysylltu â grwpiau penodol, ond materion i'r awdurdod cynllunio yw'r rhain, ac mae i'r technegau hyn oblygiadau o ran adnoddau (yn nhermau cost ac amser).

**Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc**

Mae Strategaethau Cyfranogiad awdurdodau lleol yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd yn erbyn gofynion yn y Canllawiau Strategaethau Cyfranogiad Lleol. Bydd y prosiect hwn yn nodi arferion da ynghyd â'r rhwystrau a'r cyfyngiadau sydd wedi atal cynnydd ym maes cyfranogiad. Bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ar gyfer y canllawiau a'r Strategaeth Cyfranogiad Cenedlaethol newydd a gaiff eu llunio yn unol â deddfwriaeth y Mesur Plant a Theuluoedd.

Mae Prosiect Cyfranogiad LlCC yn darparu nifer o fentrau i hwyluso cyflawni ar lefel leol. Rydym wedi paratoi cyfres o Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ac rydym yn datblygu Nod Barcud Cenedlaethol a fydd yn helpu i sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cyfranogi'n effeithiol yn ei gymuned leol. Rydym yn cefnogi'r Consortiwm Cyfranogiad Cenedlaethol; mae'r Consortiwm yn dwyn ynghyd bartneriaid o bob rhan o Gymru sy'n lledaenu arferion da ar lefel gymunedol gan alluogi pobl ifanc i gymryd rhan.

**Stereoteipiau Negyddol o Blant a Phobl Ifanc**

Nod blaenoriaeth 13 o Gynllun Gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, 'Gwneud Pethau'n Iawn' yw ceisio dileu gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn erbyn plant a phobl ifanc a mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol o blant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n awyddus i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r canfyddiadau negyddol o blant a phobl ifanc yng Nghymru ac o'r cysylltiad rhwng hyn ac ymwybyddiaeth o Hawliau a mynediad atynt. Bydd hyn yn help wrth ddatblygu polisïau yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd ac yn cynyddu'r sylw a roddir i gyflawniad plant a phobl ifanc a'u cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned. Mae hefyd yn awyddus i sicrhau ei bod yn parhau i hybu delweddau cadarnhaol o blant a phobl ifanc ac i ddathlu eu cyflawniadau. Bydd ymgyrchoedd o hyn ymlaen yn cynnwys negeseuon generig yn seiliedig ar yr UNCRC i godi ymwybyddiaeth o Hawliau, a chynyddu mynediad atynt.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar feysydd gweithredu cyffredin gan gynnwys mynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol o blant a phobl ifanc yn y cyfryngau a sut y gallwn gydweithio i fynd i'r afael â'r mater ar lefel y DU.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn datblygu prosiect i geisio newid y sefyllfa a dylanwadu ar agweddau'r cyhoedd tuag at blant a phobl ifanc drwy hybu delweddau cadarnhaol a chydweithio ag amrywiaeth o asiantaethau sy'n bartneriaid gan gynnwys cyrff y cyfryngau yng Nghymru.

**Bwlio**

Er nad yw ysgolion yn uniongyrchol gyfrifol am fwlio oddi ar eu safleoedd, mae 'Parchu Eraill', y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2003, yn awgrymu y dylai ysgolion annog disgyblion i hysbysu am fwlio oddi ar safleoedd ysgolion, ac yn rhestru camau y gellir eu cymryd. Yn 2008, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru becyn cymorth gwrth-fwlio i helpu ysgolion i ddatblygu eu polisïau a'u strategaethau gwrth-fwlio, a'u gwneud yn rhan annatod o ethos yr ysgol.

**Plant sy'n Byw mewn Ardaloedd Gwledig**

Y Gwasanaeth Ieuenctid

Mae'r Grant Refeniw ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid wedi darparu cyllid ychwanegol i ehangu'r fethodoleg a ddefnyddir ac yn benodol i brynu darpariaeth ieuenctid symudol fel bod awdurdodau lleol yn gallu sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Yr Is-adran Polisi Cefn Gwlad

Cyhoeddwyd yr adroddiad Ardaloedd Gwledig Anghysbell ar 15 Rhagfyr 2009; mae'r dystiolaeth ynddo yn sail i Lywodraeth Cynulliad

Cymru fynd ati i helpu cymunedau anghysbell i fanteisio ar wasanaethau gwell ac ymdopi â materion pob dydd.

Bydd yr adroddiad yn help i nodi'r blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd gwledig ehangach yng Nghymru ac i bennu cyfeiriad polisïau a rhaglenni'r dyfodol o ran cymunedau gwledig. Bydd yr Adran Materion Gwledig yn cydweithio ag adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i drafod y materion a nodwyd yn yr adroddiad a sut i'w datrys.

Plant Anabl

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru nifer o bolisïau a rhaglenni sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol. Mae adran benodol ar blant anabl yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth, ac mae'n ffactor sy'n sbarduno newid.

Mae'r saith nod craidd yr un mor berthnasol i blant a phobl ifanc anabl. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod y gallai fod angen goresgyn ambell rwystr ychwanegol os ydynt i gael yr un cyfleoedd a'r un mynediad at weithgareddau pob dydd â'u cyfoedion.

Mae Grwp Gorchwyl Plant Anabl yn Cyfri Cymru wedi'i sefydlu am oes y Cynulliad presennol, ac mae wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd ers ei gyfarfod cyntaf yn Ionawr 2008. Mae'r Dirprwy Weinidog dros Blant wedi cytuno i gwrdd â chynrychiolwyr yr ymgyrch yn rheolaidd i adolygu cynnydd a rhannu pryderon.

Nod y Grwp Gorchwyl, sy'n cynnwys aelodau o'r ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru ac uwch-swyddogion, yw rhoi cyngor a fydd yn helpu i gyflawni amcanion yr ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru, a mynd i'r afael â materion sydd wedi codi o ganlyniad i bolisïau ac adroddiadau eraill, gan gynnwys y rhai a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl (Ionawr 2007). At hynny, mae'r Grwp Gorchwyl yn chwarae rhan bwysig o ran cynghori ar gyflawni amcanion eraill megis y camau gweithredu allweddol o ran plant a phobl ifanc anabl yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth, a bydd yn helpu'r Cynulliad i nodi blaenoriaethau ar gyfer y maes hwn yn y dyfodol.

Mae'r Grwp Gorchwyl wedi llunio agenda bolisi yn dwyn y teitl 'Ar y trywydd iawn'; dyma'r tro cyntaf i bolisïau'r Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc anabl gael eu hamlinellu mewn un ddogfen. Fe'i lansiwyd gan y Prif Weinidog mewn digwyddiad i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anableddau ar 3 Rhagfyr 2008; ers hynny mae llawer o bobl wedi derbyn y ddogfen ac wedi ei chroesawu. Mae'n cael ei hadolygu a'i diweddaru ar hyn o bryd.

Chwarae, Hamdden a Chwaraeon

Mae cadw'n brysur, chwarae, hamdden a chwaraeon lawn mor bwysig i blant a phobl ifanc anabl ag y maent i eraill. Trefnwyd i £1 miliwn ychwanegol fod ar gael drwy Cymorth: Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc yn 2007-08, i hybu datblygiad gwasanaethau chwarae a hamdden ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'u helpu i fanteisio arnynt. Mae'r cyllid hwn yn parhau o fewn grant Cymorth.

I hybu datblygiad cyfleoedd chwarae i blant anabl, yn Hydref 2008 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £250,000 ychwanegol yn setliad y gyllideb ddrafft ar gyfer 2009-2010 i helpu awdurdodau lleol i ddarparu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant anabl. Mae'r cyllid hwn wedi'i gymeradwyo drachefn ar gyfer 2010-2011, eto er mwyn ehangu'r cyfleoedd chwarae cyn-ysgol i blant anabl, neu i ddarparu cyfleoedd ar gyfer plant anabl hyn os gwêl y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc fwlch yn y ddarpariaeth. Caiff y cyllid ei ddosbarthu fel tâl atodol i'r dyraniad Cymorth ac mae Gweinidogion wedi dweud y bydd disgwyl i awdurdodau lleol neilltuo isafswm ychwanegol o £250,000 o adnoddau a ddyrannwyd eisoes i greu cronfa o £500,000 i gefnogi'r fenter hon.

Mae gwella mynediad at weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd nid yn unig yn golygu darparu gweithgareddau addas, ond hefyd sicrhau bod y cyfleusterau priodol ar gael. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu dau doiled/man newid symudol (â digon o le i bobl anabl sydd angen cymorth gofalwyr ac offer priodol megis meinciau newid addasadwy a thaclau codi), i'w defnyddio mewn digwyddiadau diwylliannol yng Nghymru megis yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn dilyn ymgynghoriad, bydd yr unedau hyn yn cael eu gosod yn barhaol mewn nifer o ddigwyddiadau poblogaidd; mae arian wedi'i ddyrannu ar gyfer y datblygiad pwysig hwn.

Mae teuluoedd llawer o blant anabl yn cael trafferth cael y ddeupen ynghyd ac mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw llawer ohonynt yn hawlio'r budd-daliadau y maent â hawl iddynt. Nid yw'r system fudd-daliadau yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond rydym yn awyddus i sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'u hawliau a'u bod yn cael help i hawlio budd-daliadau lle y bo'n briodol. Rydym wedi darparu £500,000 dros ddwy flynedd i godi ymwybyddiaeth o'r budd-daliadau y gall rhieni a gofalwyr plant ag anableddau eu hawlio.

Gwaith Allweddol Pontio

Mae plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd yn aml yn wynebu heriau go iawn wrth gydlynu'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod y gall y broblem hon fod yn arbennig o anodd yn ystod cyfnod pontio'r person ifanc i fod yn oedolyn. Gall bod â gweithiwr allweddol wneud gwahaniaeth mawr.

Yn 2007 cyhoeddwyd y byddai £500,000 y flwyddyn ar gael am dair blynedd i ddarparu gweithwyr allweddol pontio ychwanegol yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc ag anabledd. Mae gwaith bellach yn digwydd, gyda chymorth Rhwydwaith Cydlynu Gofal dros y DU, mewn pum ardal beilot: Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion, Sir Benfro a Sir Fynwy ac mae Awdurdodau Lleol eraill yn cael eu hannog i gymryd rhan. Bu ein cais am gyllid cyfatebol yn rhan o gynllun grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop 'Cyrraedd y Nod' yn llwyddiannus ym mis Chwefror eleni. Golyga hyn fod cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwaith allweddol pontio wedi mwy na dyblu i dros £3m.

Plant a Phobl Ifanc sy'n Byw mewn Cartrefi Difreintiedig

Mae'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) – a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 10 Tachwedd 2010 (ac a gymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor ar 10 Chwefror 2010) – yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru yn 2010.

Ar 12 Mai 2010, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Cyflawni newydd i Gymru – am gyfnod o ymgynghori cyhoeddus a fyddai'n parhau am dri mis. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant newydd yn nodi gweledigaeth ac amcanion strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran lleihau tlodi plant. Mae'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig yn amlinellu ymrwymiadau polisi penodol y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu cyflawni i wireddu'r weledigaeth hon.

Mae'r Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Cyflawni yn nodi'r angen am chwarae fforddiadwy a hygyrch. Un o Nodau Eang y Mesur yw "lleihau anghydraddoldebau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant, i'r graddau y mae'n angenrheidiol i sicrhau llesiant eu plant".

Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni newydd yn rhoi blaenoriaeth i'r camau polisi hyn: parhau i sicrhau mynediad am ddim i deuluoedd incwm isel i weithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau eraill a nodir yn y Mesur, a Chyflawni'r Dyletswyddau newydd ar awdurdodau Cymru o ran chwarae.

Ceir yr ymrwymiadau canlynol yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth Tlodi Plant:

"Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddatblygu'r diffiniadau o chwarae a'r amrywiaeth o gyfleoedd chwarae y gellir eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydym am weld cymysgedd amrywiol a phriodol o ddarpariaeth chwarae, ac rydym am weld mannau agored yn cael eu datblygu ar gyfer chwarae, fel y gall plant a phobl ifanc chwarae mewn amgylcheddau diogel a chyffrous."

Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf

Mae gweithgareddau Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn ymdrin ag ystod eang o bolisïau a rhaglenni, ac am fod gwaith y Partneriaethau mor drawsbynciol mae'n anochel ei fod yn cyffwrdd â llawer o'r themâu sy'n codi (er nad yw hynny'n amlwg iawn o'r dystiolaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor).

Mae Fframwaith Gweledigaeth Cymunedau yn Gyntaf yn rhoi cyfeiriad i weithgareddau cyllidadwy'r rhaglen ac yn cynnwys chwe thema: Tlodi Plant; Amgylchedd; Diogelwch Cymunedol; Iechyd a Lles; Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau; a Swyddi, Busnes a Chynhyrchu Incwm. Gan amlaf bydd gweithgareddau Partneriaethau yn ymdrin â mwy nag un thema ac yn darparu enghreifftiau da o'r rhyngweithio rhwng polisïau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad a'r cyflawni trawsbynciol gan gymunedau. Mae Tylorstown a De Penlan yn enghreifftiau o bartneriaethau sydd wedi darparu gweithgareddau a mentrau ar gyfer pobl ifanc, gweithgareddau a mentrau sy'n eu hannog i wella'u hiechyd a'u ffitrwydd, i gymryd rhan yn y gymuned ac i gael hwyl, ac sy'n ceisio gwella canfyddiadau rhwng y cenedlaethau.

**Plant Sipsiwn-Teithwyr**

Y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ei chyfanrwydd yw un o'r grwpiau sydd wedi'i ddifreinio fwyaf mewn cymdeithas; mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc o'r gymuned. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydnabod hyn ac yn 2009 cyhoeddodd Ganllawiau Arferion Da ar Ddylunio Safleoedd a Rheoli Safleoedd ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr sy'n eiddo i Awdurdodau Lleol. Bydd y Canllawiau Arferion Da yn helpu awdurdodau lleol sy'n ystyried datblygu safleoedd newydd ac ailwampio hen safleoedd drwy roi awgrymiadau ynghylch maint lleiniau, gofynion iechyd a diogelwch gan gynnwys diogelwch tân, mannau chwarae, mannau cyffredin a rheoli safleoedd.

Mae'r Canllawiau'n argymell ystyried gosod cyfarpar chwarae ar bob safle Sipsiwn-Teithwyr sy'n eiddo i awdurdodau lleol, ynghyd â chyfleusterau i blant hyn megis cylchoedd pêl-fasged. Argymhellir hefyd yn y Canllawiau Arferion Da fod ffiniau mannau chwarae yn cael eu dangos yn glir drwy osod ffensys neu berthi i'w hatal rhag cael eu defnyddio at ddibenion eraill, ac y dylai mannau chwarae fod yn ddiogel, yn lân ac yn hygyrch i bawb. Mae'r Canllawiau Arferion Da hefyd yn argymell gosod cyfleusterau cymunedol, megis caban lle y gellir cynnal clybiau gwaith cartref, cylchoedd meithrin a gweithgareddau eraill mewn amgylchedd diogel a sych.

Ym mis Medi 2009, lansiwyd Strategaeth Ddrafft ar gyfer Sipsiwn-Teithwyr, 'Ar Lwybr Arall' at ddibenion ymgynghori. Mae'r Strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a brofir gan y gymuned Sipsiwn-Teithwyr, i sicrhau cyfle cyfartal i'r gymuned Sipsiwn-Teithwyr ac i alluogi'r gymuned i fanteisio ar adnoddau a gwasanaethau'r brif ffrwd. Mae'r Strategaeth ddrafft hefyd yn ceisio sicrhau Cydlyniant Cymunedol. Yn ystod y digwyddiadau ymgynghori, awgrymwyd y dylid mynd ati i annog pobl ifanc o gymunedau Sipsiwn-Teithwyr a'r gymuned sefydlog i integreiddio drwy grwpiau a gweithgareddau ieuenctid.

**Diweddglo**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella ansawdd bywydau plant a phobl ifanc. Mae'r cyfeiriad strategol allweddol a geir yn y ddogfen hon yn dangos sut y mae'r Cynulliad wedi ceisio rhoi'r ymrwymiad ar waith drwy ddatblygu polisïau a chanllawiau ar gyflawni. Cydnabyddwn bwysigrwydd gwella parhaus i sbarduno newid. Cydnabyddwn hefyd bwysigrwydd ceisio a gwrando ar brofiadau a barn plant, pobl ifanc, eu rhieni a'r holl gyrff a rhanddeiliaid perthnasol. Deallwn fod hyn yn hanfodol o ran datblygu a gweithredu polisïau sy'n cydnabod hawliau ac yn diwallu anghenion plant, eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym felly'n croesawu gwaith y Pwyllgor hwn ac yn gwerthfawrogi arwyddocâd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad.